No.

# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 10 Chwefror, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, T.H. Jarvie, J.M. Norman, A.C. Parker, S.D. Perkes, L.O. Rowlands a N.C. Thomas.

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd), G. Scott (Addysg Gymraeg) a C. Williams (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio), G.D.D. Carroll, J.E. Charles a Dr. I.J. Johnson

## 845 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 846 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig)

## 847 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr, 2022 fel cofnod cywir.

## 848 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

849 DIWEDDARIAD AR YR YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I GYFUNO YSGOL FEITHRIN TYDDYN BUTE AG YSGOL GYNRADD EVENLODE A YSGOL FEITHRIN COGAN AG YSGOL GYNRADD COGAN - GALW I MEWN - CYNGHORYDD G.D.D. CARROLL –

Roedd y Cynghorydd G.D.D. Carroll, nad oedd yn Aelod o'r Pwyllgor, wedi gofyn am gael galw'r adroddiad i (a ystyriwyd gan y Cabinet ar 10 Ionawr, 2022) i mewn i'w ystyried gan na wnaeth "....y Cabinet roi ystyriaeth ddigonol i'r safbwyntiau a fynegwyd yn yr ymgynghoriad".

Wrth gyflwyno'r cais i alw'r adroddiad i mewn, amlygodd y Cynghorydd Carroll fod hyn yn fater yr oedd gan y cyhoedd lawer o ddiddordeb ynddo. Roedd yr ymgynghoriad ynghylch darpariaeth Meithrin ym Mhenarth wedi derbyn nifer fwy nag arfer o ymatebion, ac roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd yn gwrthwynebu cyfuno Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Gynradd Evenlode ac Ysgol Feithrin Cogan ag Ysgol Gynradd Cogan. Roedd y Cabinet wedi bwrw ymlaen i gymeradwyo'r cynigion yn yr adroddiad ar 10fed Ionawr, ac roedd y Cynghorydd wedi galw'r eitem i mewn am ei fod o'r farn na roddwyd digon o ystyriaeth i lefel y gwrthwynebiad i'r cynigion o du'r cyhoedd. Gorffennodd ei gyflwyniad drwy annog y Pwyllgor i argymell y dylai'r Cabinet ailystyried y mater.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Carroll am ei gyflwyniad, ac wedyn gofynnodd i'r Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio ymateb. Dyma grynodeb o'i sylwadau:

- Roedd yr Aelod Cabinet yn siomedig mai'r rheswm a roddwyd dros alw'r penderfyniad i mewn oedd nad oedd y Cabinet wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r mater. Roedd y cynigion wedi cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Cabinet ar 13 Medi 2021, ac wedi bod yn destun trafodaeth ar y pryd. Pan gyflwynwyd yr adroddiad ymgynghori er ystyriaeth gerbron y Cabinet, treuliwyd swm sylweddol o amser yn ei drafod, sef 45 munud.
- Yn rhan o'r broses ymgynghori, roedd y cynigion wedi cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Diwylliant ar 14 Hydref, 2021, ac er i rai ymholiadau godi ar y pryd roedd y Swyddogion wedi ymdrin â'r rheiny ac nid oedd unrhyw wrthwynebiad i gymeradwyo'r cynigion o du Aelodau'r Pwyllgor.
- Roedd yr Aelod Cabinet yn bryderus ynghylch lefel y gamwybodaeth yr oedd hi wedi'i chlywed wrth fynychu cyfarfodydd cyrff llywodraethu'r ddwy Ysgol Feithrin, ac wrth ddarllen tua hanner yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn awgrymu y byddai Ysgol Feithrin Bute Cottage yn symud i safle Ysgol Gynradd Evenlode. Roedd hi am dawelu meddyliau pawb a oedd yn bresennol na fyddai'r cynnig i uno'r Ysgolion Meithrin a'r Ysgolion Cynradd perthynol ond yn digwydd ar lefel Lywodraethu ac Arwain, ac y byddent yn parhau i weithredu o'u safleoedd presennol.

Gofynnodd y Cadeirydd wedyn i'r Swyddogion ychwanegu at ymateb yr Aelod Cabinet os oeddent yn dymuno. Fodd bynnag, oherwydd natur y cais i alw'r penderfyniad i mewn yn gysylltiedig ag ystyriaeth a phenderfyniad y Cabinet, dywedodd y Swyddogion nad oedd ganddynt unrhyw beth i'w ychwanegu ar hyn o bryd.

Gofynnodd y Cadeirydd felly i aelodau'r cyhoedd a oedd wedi cofrestru i siarad fynegi eu sylwadau wrth y Pwyllgor, ar ôl dweud ar ddechrau'r cyfarfod bod sylwadau ysgrifenedig wedi'u cyflwyno gan gyrff Llywodraethu tair o'r ysgolion yr oedd hyn yn effeithio arnynt, a bod y rhain wedi'u rhannu â'r Aelodau i'w hystyried cyn y cyfarfod, ac wedi bod ar gael ochr yn ochr â'r agenda ar wefan y Cyngor fel gwybodaeth atodol.

Y siaradwr cyntaf o blith y cyhoedd oedd Mr. R. Disley, Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Feithrin Bute Cottage. Dyma grynodeb o'i sylwadau:

- Roedd y Corff Llywodraethu wedi'i chael hi'n anodd sicrhau bod eu lleisiau'n cael gwrandawiad yn ystod y broses ymgynghori, ac nid oedd wedi cael gwybod y byddai'n gallu siarad gerbron y Pwyllgor Craffu pan gafodd y cynnig ei ystyried yn ei gyfarfod ym mis Hydref. Nid oeddent ond wedi cael gwybod am y fecanwaith hon yn ddiweddarach drwy siarad â Chynghorwyr amrywiol.
- Roedd a wnelo eu pryderon â llesiant y staff cyfredol a oedd yn arbenigwyr a chanddynt brofiad helaeth yn eu maes. Ni fyddai eu swyddi ond wedi'u sicrhau am 12 mis pe bai'r uno'n mynd rhagddo. Nid oedd yr Awdurdod Lleol ychwaith wedi cynnig cymorth i'r staff yn ystod y broses straenus hon.
- Roedd strwythur llywodraethu ac arwain presennol y Feithrinfa yn cefnogi cynllunio ac addysgu a osodai'r safon ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar, a byddai'n anodd cynnal hyn mewn amgylchedd unedig. Roedd addysg Gynradd a Meithrin yn canolbwyntio ar wahanol leoliadau addysgol a chanddynt wahanol amcanion, a hynny'n gwbl gywir. Dylai eu strwythurau arwain, rheoli a llywodraethu felly fod yn wahanol hefyd.
- Ni ddylid uno Bute Cottage ag Ysgol Gynradd er mwyn ffitio i fodel addysg 3-11 oed heb brawf y bydd deilliannau disgyblion yn gwella. Nid oedd deilliannau gwell i blant wedi'u cynnwys yn nogfen y cynnig, ac nid oedd y Cabinet wedi trafod hynny.
- Roedd ymateb Estyn i'r ymgynghoriad yn dangos nad oedd y cynnig wedi ystyried y risg yn gysylltiedig â cholli pennaeth ymroddedig ac effaith bosibl hynny ar ansawdd y ddarpariaeth addysg.
- Ni ymdriniwyd â phryderon ynghylch effaith niweidiol yr uno ar gyllid a ddylai gael ei lywio'n bennaf at blant tair a phedair oed.

Mewn ymateb i bwynt o eglurhad a godwyd gan y Cynghorydd N.C. Thomas, dywedodd Mr. Disley mai'r farn yn adroddiad diweddaraf yr Ysgol Feithrin gan Estyn oedd bod yr ysgol yn 'Dda', yn hytrach nag 'Ardderchog', er bod hyn wedi digwydd chwe blynedd yn ôl.

Y siaradwr nesaf o blith y cyhoedd oedd Ms. M. Canavan, cynrychiolydd aelodau'r Undeb Addysg Genedlaethol yn Ysgol Feithrin Cogan. Dyma grynodeb o'i sylwadau:

- Roedd Ysgol Feithrin Cogan wedi'i barnu'n 'Ardderchog' ym mhob categori yn ei harolwg diweddaraf gan Estyn, ac roedd pryderon y byddai uno yn gwanio arbenigedd ei haelodau staff ac na fyddai ei darpariaeth Feithrin ardderchog yn cael ei chadw.

- Er bod y ddogfen ymgynghori'n nodi y byddai'r Feithrin yn parhau â'r lefelau cyfredol o staff, ac ar ei safle presennol, roedd y ffaith na fyddai uwch reolwr yn bresennol ar y safle yn destun pryder, a dadleuwyd y byddai hyn yn niweidiol i reolaeth a goruchwyliaeth yr Ysgol Feithrin, gan godi pryderon ynghylch trefniadau arwain a diogelu staff yr Ysgol Feithrin, a'r ffaith y byddai hyn yn gwanio'r cyfathrebu rhwng y naill ysgol a'r llall.
- Gallai'r ffaith nad oes gofyniad i gynnwys rhai llywodraethwyr o'r Ysgol Feithrin ar y corff llywodraethu newydd gael effaith niweidiol, oherwydd gallai rhai a chanddynt wybodaeth a phrofiad o Ysgol Feithrin Cogan gael eu colli.
- Roedd y dyfodol o ran staffio yn ansicr, a dadleuwyd y gallai fod risg uchel i staff arbenigol y blynyddoedd cynnar gael eu diswyddo yn y dyfodol, senario a oedd eisoes wedi digwydd yn Ysgol Gynradd Tregatwg yn ôl aelodau'r Undeb Addysg Genedlaethol.
- Roedd pryder y gallai gwaith y staff yn y gymuned gael ei golli, gan na fyddai o bosib yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth o fewn lleoliad ysgol mwy.
- Teimlai aelodau'r Undeb Addysg Genedlaethol yn y Feithrinfa nad oedd eu lleisiau wedi cael gwrandawiad, ac roeddent yn mynnu bod darpariaeth Feithrin arbenigol yn well i'r disgyblion o safbwynt addysgeg.

Y siaradwr nesaf o blith y cyhoedd oedd Mrs S. Gillies, rhiant cyn-ddisgyblion yn Ysgol Feithrin Bute Cottage ac athrawes y cyfnod sylfaen. Dyma grynodeb o'i sylwadau:

- Roedd Mrs. Gillies wedi rhyfeddu at y ddarpariaeth a'r amgylchedd yn Bute Cottage, lle'r oedd llesiant wrth wraidd popeth.
- Roedd y Cwricwlwm newydd i Gymru yn pwysleisio pwysigrwydd darpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar yn natblygiad plant, ac roedd angen ymarferwyr hynod fedrus ar gyfer hyn a oedd yn arbenigo yn yr ystod oedran a oedd yn mynychu Ysgol Feithrin annibynnol. Roedd cymuned gyfan o blant wedi elwa ar hyfforddiant ac arbenigedd staff Bute Cottage.
- Roedd Mrs. Gillies ei hun wedi gweld cyllid penodol ar gyfer darpariaeth Feithrin yn lleihau wrth gael ei wasgaru ar draws ardaloedd ac anghenion eraill mewn lleoliad ysgol mwy.
- Yr oedd cyfle i arddangos y ddarpariaeth eithriadol yn Bute Cottage, nid yn unig o ran ei staff hynod gymwys ond hefyd ei chyfleusterau rhagorol, a allai gynnig cyfleoedd a hyfforddiant dysgu proffesiynol gwerthfawr mewn damcaniaeth ac ymarfer, a allai wedyn gynhyrchu incwm a chymorth ariannol hanfodol i'r ysgol.
- Roedd nifer o aelodau staff o ysgol Mrs Gillies' wedi elwa'n fawr ar gael ymweld â Bute Cottage a gweld yr ymarfer yn ei lleoliad blynyddoedd cynnar, ac roedd yr Ysgol Feithrin yn yr ysgol honno wedi cael ei thrawsnewid i adlewyrchu'r hyn a oedd yn digwydd yn Bute Cottage.
- Gallai Bute Cottage feithrin sgiliau ar draws llawer o ysgolion eraill, ond dim ond pe bai'n cadw rheolaeth ar ei chyllideb a'i threfniadau llywodraethu.
- Roedd plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn ffynnu yn amgylchedd Bute Cottage, a chyda nifer y plant ag ADY ar gynnydd ar draws yr ysgolion, cydnabuwyd y gallai ymyrraeth gynnar olygu na fyddai angen defnyddio'r asiantaethau allanol yn ddiweddarach, a oedd eisoes wedi'u gorymestyn.

Y siaradwr nesaf o blith y cyhoedd oedd Mrs. K Rees, rhiant o fewn y gymuned, a chyn-lywodraethwr yn Ysgol Feithrin Bute Cottage. Dyma grynodeb o'i sylwadau:

- Roedd Mrs Rees yn cynrychioli'r rhieni a wrthwynebai'r cynigion, ond a deimlai nad oeddent wedi cael gwrandawiad. Ar ôl gwylio cyfarfod y Cabinet ar 10 Ionawr, teimlai'n siomedig na roddwyd mwy o ystyriaeth i'r materion a godwyd.
- Teimlai fod yr awgrym bod a wnelo mwyafrif y sylwadau yn erbyn y cynnig â'r lleoliad yn tynnu sylw oddi wrth bryderon a fynegwyd ynghylch y ffaith y dylai'r Ysgol Feithrin gadw ei phennaeth, ei chyllideb, ei chorff llywodraethu a'i staff arbenigol ei hun. Gallai colli'r rhain amharu ar brofiadau dysgu fu mor arbennig i'w phlant ei hun.
- Gan fod dau Aelod Cabinet yn aelodau o gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Evenlode, ni allai weld sut na ellid tybio hynny'n achos o wrthdaro buddiannau.

Mewn ymateb i bwynt o eglurhad gan y Cynghorydd N.C. Thomas, cydnabu Mrs. Rees mai pennaeth dros dro oedd pennaeth cyfredol Bute Cottage mewn gwirionedd (felly roedd hi'n anochel y byddai deilydd y swydd yn newid), ond dywedodd fod y pennaeth dros dro wedi rhoi arweiniad a chynnal safonau a oedd yn gyfwerth â phennaeth gwirioneddol, a hyd y gwyddai nid oedd yr Ysgol Feithrin wedi cael caniatâd i benodi'r pennaeth dros dro yn bennaeth parhaol, er bod hynny wedi'i gymell.

Y siaradwr nesaf oedd Mrs. J. Bryan, cyn-athrawes a phennaeth a arbenigai mewn ysgolion Cynradd a Meithrin. Dyma grynodeb o'i sylwadau:

- Gan gyfeirio at y pryderon a godwyd gan Estyn mewn ymateb i'r cynigion, dymunai Mrs. Bryan ofyn i'r Pwyllgor argymell i'r Cabinet y dylid tynnu'r cynigion yn ôl.
- Anghytunai na fyddai'r cynigion yn cael unrhyw effaith ar ansawdd y ddarpariaeth addysg pe bai'r holl staff a'r safleoedd yn aros yr un peth. Er mwyn i ysgol fod yn ragorol, roedd angen olyniaeth o staff medrus, corff llywodraethu cefnogol a chred gyffredin mai anghenion y disgyblion fyddai'n sbarduno penderfyniadau.
- Roedd angen i'r staff deimlo bod eraill yn ymddiried ynddynt ac wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau ar unwaith yn y fan a'r lle ynghylch anghenion y disgyblion, heb i hynny gael ei oedi gan drafodaethau mewn lleoliad ysgol mwy. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi pa leoliad y byddai'n well gan rieni anfon eu plant iddo.
- Pe bai ysgol yn gallu neilltuo 100% o'i hadnoddau i fodloni ei hanghenion penodol ei hun, gallai gyflawni ei chenhadaeth graidd i roi'r gefnogaeth a'r anogaeth yr oedd ar bob plentyn eu hangen i dyfu a datblygu, yn hytrach na bod adnoddau'n cael eu gwanio gan fod problemau'n codi mewn rhannau eraill o ysgol fwy.

Y siaradwr olaf o blith y cyhoedd oedd Mrs. Helen Jones, rhiant a rhiant-lywodraethwr yn Ysgol Feithrin Bute Cottage. Dyma grynodeb o'i sylwadau:

- Roedd yr adroddiad ymgynghori mewn gwirionedd yn nodi na fyddai angen unrhyw ymgynghoriad statudol er mwyn symud yr ysgolion o'u safleoedd presennol.
- Dywedai'r adroddiad ymgynghori hefyd y byddai mwy o gyfleoedd datblygu proffesiynol ar ôl yr uno, ar sail adborth gan un aelod o staff yn Nhregatwg. Fodd bynnag, roedd staff Bute Cottage eisoes yn arddangos datblygiad proffesiynol gwych yn eu hymarfer , fel yr oedd y rhestr o wobrau yr oeddent wedi'u hennill yn tystio. Roedd y mentrau hyn wedi'u harwain gan staff, gan eu helpu eu hunain a blaenoriaethau disgyblion a'r ysgol. Roedd staff hefyd wedi addysgu rhieni sut i chwarae fel y gellid parhau â darpariaeth chwarae gartref.
- Nid oedd hyn ond yn bosibl drwy drefniadau llywodraethu a chyllid wedi'u rheoli'n annibynnol.
- Roedd Partner Gwella Ysgolion Annibynnol Allanol wedi ysgrifennu at ysgolion eraill o fewn y consortiwm ynghylch arferion arloesol yn Bute Cottage, ac roedd y consortiwm ei hun wedi defnyddio'r Ysgol Feithrin mewn prosiectau ymchwil ar waith i arddangos arfer gorau i ysgolion eraill.
- Ni allai weld sut roedd uno'n addas i'r Cwricwlwm newydd i Gymru, gan nad dyna oedd orau i blant tair a phedair oed.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl siaradwyr am eu cyfraniadau, a werthfawrogwyd yn fawr, ac wedi hynny agorodd y mater i'w drafod ymhlith Aelodau'r Pwyllgor.

Mynegodd yr Aelodau ystod o safbwyntiau, o blaid ac yn erbyn y cynigion. Dyma grynodeb o'r rhai a wrthwynebai'r cynigion:

- Pan gafodd y mater ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor yn wreiddiol, roedd rhai wedi deall mai'r ddadl ar y pryd oedd a fyddai ymgynghoriad allanol yn cael ei gynnal ar y mater ai peidio, a chan eu bod yn disgwyl adborth rhieni a llywodraethwyr nid oeddent wedi mynegi unrhyw safbwynt penodol ar y pryd.
- Os nad pwrpas y cynnig oedd mynd i'r afael â safonau addysg, neu gynnal ymarfer arbed costau, nid oedd yn glir beth oedd y pwrpas hwnnw. Nid oedd yn glir ychwaith pam y byddai astudiaeth dichonoldeb ynghylch sefydlu darpariaeth Feithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode hyd yn oedd yn cael ei chrybwyll o fewn yr adroddiad os nad oedd unrhyw fwriad i symud Bute Cottage o'i safle presennol. O safbwynt cyffredinol, roedd hi felly'n aneglur pam bod y Cabinet wedi dewis mynd ar y trywydd hwn.
- Er ei bod yn deg dweud bod mwy i ysgol nag adeiladau a lleoliad, roeddent yn cyfrannu at ymdeimlad o le, a oedd hefyd yn bwysig.
- Roedd y rhieni a'r llywodraethwyr wedi mynegi'n glir eu bod yn rhoi gwerth mawr ar gael pennaeth annibynnol, ac nad oeddent am newid y trefniadau llywodraethu na'r strwythur.
- Roedd Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan yn cael eu hystyried fel gemau yng nghoron system addysg y Fro, a chan hynny dylai'r Pwyllgor geisio'u cadw yn hytrach na bwrw ymlaen i uno.

Dyma grynodeb o sylwadau'r rhai a oedd o blaid y cynigion:

- Byddai gan yr ysgolion yr un staff, yr un ethos arweiniol a safonau proffesiynoldeb ar waith, a hyd yn oed wrth uno'r cyrff llywodraethu, byddai

cynnal safonau o fudd personol i'r ddwy Ysgol Feithrin a'r Ysgolion Cynradd. Roedd y ddwy ysgol gynradd dan sylw yn ysgolion da iawn, ac roedd aelodau o'r Consortiwm yn troi tuag atynt am arweiniad, a theimlai rhai o'r Cynghorwyr fod awgrym o ddiffyg ymddiriedaeth mewn addysgwyr proffesiynol neu eu safonau rheoli mewn cymhariaeth â'r hyn a geid yn yr Ysgolion Meithrin, ac roedd hynny'n destun siom.

- Wrth uno, yn ôl pob tebyg byddai'r llywodraethwyr yn dal i fabwysiadu meysydd cyfrifoldeb personol o fewn y cwricwlwm, felly byddai disgwyl iddynt dderbyn hyfforddiant ac arddangos capasiti a gwybodaeth yn y maes dan sylw.
- Nid oedd unrhyw reswm pam na fyddai datblygiad proffesiynol yn digwydd, ac roedd hi'n aneglur pam y byddai hynny'n cael ei atal o beidio â chael pennaeth dynodedig.
- Roedd y Cynghorydd R.M. Birch wedi gwneud llawer o waith mewn ysgol dau safle, gyda phennaeth ar y naill safle a dirprwy ar y safle arall. Byddai'r ddau'n ymweld â'r naill safle a'r llall, yn cyfnewid safbwyntiau ac yn cynnal disgyblaeth, felly dywedodd ei bod hi'n gwbl bosibl cynnal ysgol dau safle yn effeithiol.
- Roedd llawer o gamwybodaeth wedi cael ei rhannu ynghylch y cynnig i uno, a oedd yn weithred o natur reolaethol. Ac ystyried bod trethdalwyr yn gyson yn dweud bod gormod o reolwyr yn gweithio o fewn yr Awdurdod Lleol, roedd hi'n ymddangos y byddai'r cynnig hwn yn ymdrin â'r pryderon hynny gan sicrhau cysondeb a pharhad y cwricwlwm ar yr un pryd, a fyddai wedyn yn golygu bod trosglwyddiad y disgyblion rhwng cyfnodau yn llyfnach, er enghraifft drwy alinio cynlluniau darllen.
- Byddai disgyblion Bwthyn Bute yn parhau i elwa ar ei hardal awyr agored, ac eglurodd y Cynghorydd N.C. Thomas pe bai cynnig i newid hyn yn y dyfodol, y byddai'n ymgyrchu'n weithredol yn erbyn hynny, ond nid oedd cynnig o'r faith wedi'i wneud hyd yma.
- Roedd y Cyngor yn argymell polisi ysgol gyfan, gyda Thregatwg bellach yn gweithredu fel un ysgol Gynradd ar draws dau safle, Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg wedi troi'n ysgol 3-19 oed ar un safle, a chynlluniau i droi Ysgol Gyfun y Bont-faen yn ysgol 3-19 oed ym mis Medi 2022. Roedd hyn wedi'i dderbyn fel cam cadarnhaol gan y Cynghorwyr o safbwynt addysgeg, gyda'r athrawon yn gallu rhannu eu profiadau a'u gwybodaeth.
- Roedd nifer o rieni (gan gynnwys un siaradwr cyhoeddus) eisoes yn dewis anfon eu plant i un o’r Ysgolion Meithrin ac wedyn i'r ysgolion yr awgrymwyd eu bod yn uno â nhw, ac ni fyddai hyn yn newid o dan y cynigion.

Mewn ymateb i’r sylwadau uchod ac ymholiadau eraill a godwyd gan Aelodau’r Pwyllgor, rhoddodd y Swyddogion yr ymatebion a ganlyn:

- Roedd dwy Ysgol Feithrin annibynnol ar ôl ym Mro Morgannwg, sef y ddwy a oedd wedi'u cynnwys yng nghynigion y drafodaeth hon. Pan ystyriodd y Pwyllgor y cynigion i ddechrau, darparwyd data ar berfformiad disgyblion cyn ac ar ôl uno yn Ysgol Gynradd Tregatwg, yr uniad diweddaraf a gwblhawyd, ac er nad oedd gan y Swyddog yr union ddata wrth law yn y cyfarfod hwn, dywedodd, fel yr oedd wedi'i ddweud o'r blaen, fod deilliannau'r dysgwyr ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen wedi gwella yn dilyn yr uno.

- O ran Ysgol Gynradd Tregatwg, roedd y penderfyniad y cyfeiriwyd ato'n flaenorol i symud y staff Meithrin i'r lleoliad Cynradd wedi deillio o geisiadau'r aelodau eu hunain am gyfleoedd datblygu proffesiynol.
- Mewn ymateb i gais uniongyrchol gan y Cynghorydd N.C. Thomas, cadarnhaodd y Swyddogion nad oedd unrhyw fwriad i ddiswyddo staff yn yr un o'r Ysgolion Meithrin, ac roedd cyrff llywodraethu'r Ysgolion Cynradd wedi nodi na fyddent yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau o ran staff o fewn y lleoliadau Meithrin, fel y mynegwyd yn glir drwy gydol y broses ymgynghori.
- Roedd gan y ddwy Ysgol Feithrin benaethiaid dros dro, felly doedd dim pennaeth parhaol yn yr un lleoliad na'r llall. Yn dilyn ymddeoliad y penaethiaid blaenorol, roedd trafodaethau wedi'u cynnal â'r cyrff llywodraethu a rhai sgyrsiau wedi codi a awgrymai y gallai'r cynigion hyn ddod i'r amlwg yn y dyfodol, felly penderfynwyd penodi penaethiaid dros dro yn y cyfamser. Penderfyniad y cyrff llywodraethu oedd hyn, yn hytrach na'r Awdurdod Lleol.

Gyda chaniatâd i siarad, dywedodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio y sylwadau pellach, fel a ganlyn:

- Dymunai ailbwysleisio nad oedd unrhyw fwriad i newid y staff na'r lleoliadau, ac nad oedd unrhyw reswm i dybio y byddai safonau'r dysgu a'r addysgu'n newid o dan y cynigion.
- Roedd y cynigion wedi cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor yn wreiddiol yn rhan o'r ymarfer ymgynghori, a oedd yn rhan o'r drefn arferol, ac roedd trafodaethau'r Pwyllgor bryd hynny mewn gwirionedd wedi cael eu rhannu â phapurau'r cyfarfod.
- Roedd diben y cynnig wedi'i nodi'n glir yn y papurau ymgynghori, a oedd wedi'u hystyried gan y Pwyllgor hwn a'r Cabinet yn y ddau gyfarfod. Er y byddai hyn yn cael effaith ar gostau, nid dyma oedd diben y cynnig. Cafwyd cyfeiriad hefyd at asesiad dichonoldeb oherwydd byddai angen hynny i gadarnhau a oedd y Fro yn dilyn y model gorau ai peidio. Roedd yr Aelod Cabinet wedi dweud, ar gofnod, nad oedd o'r farn y byddai'n ddichonadwy sefydlu safle Meithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode.

Cynigiodd y Cynghorydd LO Rowlands y dylid gwneud argymhelliad i'r Cabinet na ddylai'r cynigion i uno, fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, fynd rhagddynt. Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, a phleidleisiwyd yn ei erbyn.

Cynigiwyd wedi hynny y dylid cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad. Ar ôl i'r Cynghorydd wneud cais i gofnodi'n ffurfiol nad oedd o blaid yr argymhelliad, cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, a phleidleisiwyd o'i blaid. Cafwyd, felly,

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo’r argymhellion yn yr adroddiad, fel y'u cymeradwywyd gan y Cabinet ar 10 Ionawr 2022.

Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

850 ADRODDIAD CANOL TYMOR DIOGELU CORFFORAETHOL (CYF) –

Cyflwynodd y Swyddog Diogelu y cyfeiriad, a roddai grynodeb o'r gweithgarwch a gyflawnwyd yn gysylltiedig â threfniadau Corfforaethol i Ddiogelu ar draws y Cyngor, ac a gyfeiriwyd gan y Cabinet i'r holl Bwyllgorau Craffu ar 22 Tachwedd, 2021 er ystyriaeth.

Roedd cyfrifoldeb Corfforaethol i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddiogelu plant ac oedolion a oedd angen gwasanaethau penodol gan y Cyngor. Rhoddai'r adroddiad y newyddion diweddaraf canol blwyddyn ynghylch effeithiolrwydd y trefniadau hynny, ar datblygiadau hyd yma. Roedd y Grŵp Diogelu Corfforaethol (GDC) yn gwneud yn siŵr bod trefniadau ar waith i sicrhau a chraffu ar drefniadau diogelu corfforaethol.

Roedd hi'n werth nodi'r cymorth sylweddol yr oedd y Cyngor yn ei roi i'r ysgolion lleol yn gysylltiedig â diogelu, a bod holl gyflogeion y Cyngor, gwirfoddolwyr gan gynnwys llywodraethwyr ysgol, aelodau etholedig, contractwyr a phartneriaid o fewn y Fro yn gwybod, drwy drefniadau sefydlu a hyfforddi, am eu cyfrifoldeb i gydymffurfio â'r Polisi Diogelu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei adroddiad a chan nad oedd unrhyw sylwadau gan Aelodau ar hyn o bryd

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi cynnwys yr adroddiad.

(2) Trosglwyddo llongyfarchiadau'r Pwyllgor i'r staff am y gwaith caled a wnaed.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

851 DIWEDDARIAD AR AIL-LUNIO’R GWASANAETH CELFYDDYDAU AC ADOLYGIAD ORIEL GANOLOG Y CELFYDDYDAU (CYF) –

Roedd y Cabinet, ar 20 Rhagfyr 2021, wedi derbyn adroddiad a roddai'r newyddion diweddaraf ac adroddiad opsiynau ynghylch Gwasanaeth y Celfyddydau, a'r defnydd posibl yn y dyfodol o’r Oriel Gelf Ganolog yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd. Roedd y Cabinet wedi cyfeirio'r adroddiad i sylw'r Pwyllgor er mwyn i'r aelodau ystyried yr opsiynau a amlinellwyd ynddo.

Cyflwynodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau yr adroddiad, a ddwedai fod adolygiad wedi'i gynnal o’r Oriel Gelf Ganolog. Yn sgil adolygiad o'r Oriel, roedd chwe opsiwn posibl ar y bwrdd, gydag un opsiwn yn cael ei ffafrio er mwyn defnyddio'r gofod yn y dyfodol (Opsiwn 3: Sefydlu caffi bar a moderneiddio'r Oriel Gelf Ganolog), gan anelu i sicrhau y byddai'r gofod yn gynaliadwy ac yn niwtral o ran costau i'r Cyngor.

Roedd yr adroddiad hefyd yn esbonio'r cyd-destun, o ran y newid mewn amgylchiadau ers dechrau'r ymgynghoriad. Tynnai sylw hefyd at y ffaith bod menter y Cyngor i ailagor Pafiliwn Pier Penarth, ers ei gweithredu, wedi bod o fudd aruthrol i drigolion Penarth ac i ymwelwyr â'r ardal.

Gofynnodd y Cadeirydd wedyn am sylwadau gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson, nad oedd yn aelod o'r Pwyllgor. Dyma grynodeb o'i sylwadau:

- Roedd y Cynghorydd yn Aelod ward lleol ac yn aelod o Ŵyl Gelfyddydau'r Barri a Chyngor Tref y Barri, a oedd yn denantiaid yn yr un adeilad â'r Oriel Gelf Ganolog.
- Wrth ystyried rôl y Celfyddydau i sicrhau llesiant, ystyriai ei bod yn werth buddsoddi ynddynt yn eu hawl eu hunain, ac na ddylid rhoi'r prif sylw i sicrhau bod y costau'n niwtral, neu fod modd adennill costau.
- Roedd angen ystyried effeithiau ymarferol Opsiwn 3, er enghraifft a oedd cyflwyno caffi/bar wedi newid natur yr oriel yn sylfaenol, ac a allai fod yn cystadlu â busnesau a fodolai eisoes yn yr ardal.
- Pryderai fod y cynigion yn canolbwyntio mwy ar y gyllideb nag ar weledigaeth wirioneddol neu raglen o ansawdd uchel ar gyfer y Celfyddydau yn y Barri.

Yn dilyn sylwadau'r Cynghorydd Dr. Johnson, gofynnodd y Cadeirydd am sylwadau gan y Cynghorydd J.E. Charles. Dyma grynodeb o'i sylwadau:

- Yr Oriel Gelf Ganolog oedd yr oriel orau wedi'i chynnal gan y Cyngor yng Nghymru, oherwydd ei hystod ragorol o gyfleusterau mewnol ac allanol. Byddai'n wrthun lleihau maint y gofod ac yn gostus hefyd. Roedd y gofod yn cael ei danddefnyddio, gydag ond ychydig o arddangosfeydd neu ddigwyddiadau diwylliannol yn cael eu cynnal, a'r Cyngor heb fanteisio ar y rhai a oedd yn cael eu cynnig. Roedd hynny yn ei dro yn atal yr oriel rhag codi incwm drwy ddigwyddiadau lle'r oedd yn rhaid prynu tocyn.
- Gallai'r oriel gefnogi dysgu, ac roedd mewn sefyllfa ddelfrydol i fod yn ffocws canolog o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Dylai Gwasanaeth Datblygu'r Celfyddydau ymgynghori ag athrawon pwnc i ddatblygu rhaglen a fyddai o gymorth i gyflwyno'r Cwricwlwm, yn codi proffil yr oriel ac yn cynyddu nifer yr ymwelwyr â hi.
- Roedd hi'n anochel y byddai'r Oriel yn cael ei chymharu â'r Pafiliwn, ond roedd y ddau leoliad yn gwasanaethau gwahanol ardaloedd a demograffeg, gyda Phenarth eisoes yn gyrchfan i ymwelwyr a'r Barri yn dref a oedd angen ei hadfywio.
- Byddai angen y tîm cywir o staff i sicrhau bod y gofod ar ei newydd wedd yn llwyddo, unigolion â'r weledigaeth a'r egni i drefnu gweithdai a digwyddiadau diwylliannol rheolaidd.
- Roedd "Bro diwylliannol fywiog" ymhlith y nodau a ddatganwyd gan y Cyngor, ac roedd yn rhaid i'r Oriel Gelf Ganolog chwarae rhan hollbwysig er mwyn cyflawni hyn, ac roedd potensial i'r lle fod yn ganolfan gyffrous ac effeithlon ar gyfer Celfyddydau yn y Fro.

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau Gynghorydd am eu sylwadau, cyn agor y ddadl i Aelodau'r Pwyllgor. Mynegwyd ystod o safbwyntiau o blaid ac yn erbyn y cynigion. Dyma grynodeb ohonynt:

- Yn sgil llwyddiant y Pafiliwn roedd nifer yr ymwelwyr â glan y môr Penarth wedi cynyddu, ac roedd hynny wedyn wedi bod o fudd i fusnesau lleol eraill. Byddai Opsiwn 3 ar gyfer yr Oriel Gelf Ganolog hefyd yn creu cyrchfan fywiog ac yn denu mwy o ymwelwyr i'r Barri, gan gael effaith gadarnhaol ar fusnesau lleol.
- Y brif broblem yn gysylltiedig â'r Oriel Gelf Ganolog oedd marchnata gwael, ac o farchnata'r Oriel yn dda byddai nifer yr ymwelwyr yn cynyddu. Nodwyd yn yr adroddiad fod 241,070 o bobl wedi ymweld â Llyfrgell y Barri yn 2018/19 o gymharu ag 12,500 yn yr Oriel. Mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn oedd bod y llyfrgell eisoes yn lleoliad sefydledig a chyfarwydd.
- Nid oedd cyhoeddusrwydd ynghylch arddangosfeydd neu ddigwyddiadau ond yn tueddu i gyrraedd y Cynghorwyr drwy negeseuon e-bost y Cyngor. Nid oeddent yn derbyn cyhoeddusrwydd amlwg yn y wasg nac yn y cyfryngau cymdeithasol, a theimlwyd efallai nad oedd yr Oriel Gelf Ganolog yn cael digon o flaenoriaeth yn nhermau marchnata, a bod angen pwysleisio wrth dîm Cyfathrebu'r Cyngor nad ail orau oedd yr Oriel Gelf Ganolog.
- Byddai agor caffi yn yr oriel yn effeithio ar fasnachwyr lleol.
- Gallai Opsiwn 3 greu lleoliad yn y Barri sy'n debyg i Ganolfan Gelf Chapter yng Nghaerdydd, gyda llawer o fathau gwahanol o gelf ar gael drwy gydol y dydd, a gallai cael caffi olygu bod ymwelwyr yn aros ychydig yn hirach i weld mwy o'r celf a oedd ar gael.
- Nid oedd rhai pobl yn teimlo'n gyffyrddus yn mynd i mewn i'r oriel ar hyn o bryd, ond gallai newid y gofod i fod yn fwy deniadol annog pobl i ddod i mewn ac, o bosib, dychwelyd i'r gofod.
- Gyda'r Tabernacl gyferbyn â'r oriel wedi'i werthu i gynnal digwyddiadau cerddorol ac adloniant, gallai Sgwâr y Brenin ddatblygu'n ganolbwynt da i'r Barri yn y dyfodol.
- Bu prinder digwyddiadau a hysbysebu, a diffyg ansawdd a chyfeiriad gan y Cyngor o ran darparu'r gofod arloesol a fwriadwyd yn yr Oriel Gelf Ganolog bymtheng mlynedd yn ôl.
- Roedd taer angen amgueddfa yn y Barri hefyd, i gynyddu incwm a balchder dinesig yn yr ardal.
- Nid oedd grantiau allanol yn cael eu defnyddio'n ddigonol, ac roedd angen i'r Cyngor fanteisio ar ffynonellau cyllid fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chyngor Celfyddydau Cymru. Dylid rhoi'r flaenoriaeth i hyn yn hytrach na'r dybiaeth y byddai incwm o gaffi/bar o gymorth i wneud celf a diwylliant yn fwy fforddiadwy a hygyrch yn yr ardal.
- Roedd diffyg defnydd o'r gofod allanol yn yr Oriel Gelf Ganolog yn destun siom fawr hefyd.
- Roedd angen ymdrechu i wneud celfyddydau yn y Fro yn rhywbeth llai elitaidd, gan fod llawer o breswylwyr yn teimlo nad oedd gofodau fel yr Oriel Gelf Ganolog yn addas ar eu cyfer nhw. Roedd angen sicrhau felly fod y gofod yn fwy cyfeillgar â defnyddwyr. Un posibilrwydd oedd cynnig opsiynau fel dosbarthiadau crefft neu gornel chwarae i blant. Roedd hi'n bwysig sicrhau bod y math o gelfyddydau a fyddai'n cael ei gynnig yn denu pawb, ac nad oedd yn gelf 'aruchel' yn unig.

- Ni chafodd awgrymiadau blaenorol ynghylch sefydlu caffi yn yr Oriel Gelf Ganolog eu croesawu, ac awgrymwyd y gallai hynny olygu defnyddio oddeutu 30% o'r gofod a oedd ar gael.
- Roedd cyllid Adran 106 wedi cael ei dderbyn ar gyfer mentrau yn Llyfrgell Penarth, a holwyd a ellid darparu cyllid Adran 106 i gefnogi'r celfyddydau yn y Barri, ac ystyried faint o dai a oedd wedi cael eu hadeiladu yn yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf.
- Roedd opsiynau eraill a awgrymwyd gan y Cyngor heb eu cyllido, a heb eu hystyried yn ddigon gofalus yn nhermau'r pwysau o ran costau.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan yr Aelodau, rhoddodd y Swyddog yr ymatebion a ganlyn:

- Roedd llawer o raglenni a gynhaliwyd yn ystod pandemig COVID-19 wedi canolbwyntio ar y Celfyddydau a llesiant. O ran cyllid, gan fod y mater hwn wedi'i godi'n flaenorol gan y Pwyllgor, roedd cronfa wedi cael ei sefydlu'n benodol i gefnogi'r Celfyddydau a Diwylliant. Pwrpas unrhyw ffocws ar gostau o fewn y cynigion oedd sicrhau cynaliadwyedd, a galluogi mwy o weithgarwch o fewn y gofod drwy leihau gorbenion.
- Nid cystadlu â busnesau lleol fyddai'r bwriad, gan y byddai'r gofod yn fecanwaith i gynnal digwyddiadau ychwanegol gydag opsiwn i ddefnyddio cyfleusterau arlwyo. Wrth agor y caffi yn y Pafiliwn, roedd Swyddogion wedi cysylltu â sefydliadau cyfagos i drafod sut y gallai'r mentrau gefnogi'r naill a'r llall, er enghraifft drwy sicrhau bod masnachwyr lleol yn cyflenwi pan fyddai digwyddiadau arbennig yn cael eu cynnal.
- Cydnabuwyd bod angen marchnata'r oriel yn well, gan adlewyrchu'r cynnwys a'r rhaglen newydd a oedd yn cael eu creu, ac roedd y maes gwasanaeth yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Gyfathrebu i ddatblygu strategaeth farchnata, gydag arbenigedd ychwanegol i ganolbwyntio ar farchnata'r gofod yn yr Oriel Gelf Ganolog.
- Un o fanteision posibl sefydlu caffi/bar fyddai'r ffaith y byddai aelod staff yn bresennol yn gofalu am y gofod ac yn barod i groesawu ymwelwyr. Dangoswyd yn y Pafiliwn fod hyn yn fodd i ddenu mwy o bobl drwy'r drws. Roedd hyn yn ei dro wedi creu mwy o sylw i artistiaid yn y Fro, ac roedd gwerthiant eu darnau yn adlewyrchu hyn.
- Cydnabuwyd bod ffynonellau cyllid y gallai ac y dylai'r Cyngor eu defnyddio i adeiladu capasiti o fewn y celfyddydau a diwylliant, ond bod angen cynyddu capasiti o fewn y maes gwasanaeth i gyflawni'r gwaith hwnnw ynddo'i hun.
- Un elfen o'r opsiwn a ffafriwyd fyddai moderneiddio'r gofod yn gyffredinol, a darparu cyfleusterau ychwanegol fel systemau clyweledol, a sicrhau bod y gofodau mewnol ac allanol yn hygyrch i'r holl ymwelwyr.
- Roedd yr oriel yn y Pafiliwn wedi cynnal llawer o ddigwyddiadau a ddenodd rhieni a phlant nad oeddent erioed wedi bod o'r blaen, ac roedd llawer wedi hynny wedi cofrestru ar ddosbarthiadau a gweithgareddau eraill a oedd ar gael. Roedd y Swyddogion yn cydnabod bod hyn yn rhywbeth y byddai angen i'r Cyngor barhau i'w gryfhau, ac roedd yn un o'r meysydd ffocws allweddol ac ystyried y nifer fawr o ymwelwyr â Llyfrgell y Barri a'r rhaglenni cymunedol, teulu a dysgu a oedd yn cael eu cynnal yno.

- Roedd Opsiwn 3 yn fodel a fyddai'n talu amdano'i hun gan y byddai'r cyllid ar gyfer y caffi/bar yn fenter ar y cyd â'r Big Fresh Catering Company, ac yn ddibynnol ar eu cronfa ehangu masnachol, a oedd wedi cael ei sefydlu yn dilyn eu llwyddiant y flwyddyn gynt.
- Nid oedd gwaith rhagarweiniol wedi'i gwblhau eto o ran faint o ofod y byddai'r caffi/bar yn ei ddefnyddio, ond eglurwyd na fyddai'n golygu defnyddio holl ofod yr oriel, ac na fyddai mor fawr â'r caffi/bar yn y Pafiliwn.

Gyda chaniatâd i siarad, dymunai'r Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio dynnu sylw at y ffaith bod gwasanaethau anstatudol fel y celfyddydau wedi gorfod addasu i lefel 'ymdopi' gan nad oedd unrhyw cyllid mewnol ar gael yn sgil mesurau cyni a thoriadau ailadroddus i'r gyllideb.. Cwestiynai a fyddai marchnata gwell o unrhyw fudd pe na bai unrhyw gynnyrch i'w farchnata, ac ychwanegodd mai'r hyn a ganfuwyd yn y Pafiliwn oedd model a oedd yn gweithio ac a gynigiai sylfaen gynaliadwy y gellid ychwanegu grantiau ati. Tynnodd yr Aelod Cabinet hefyd sylw at broblemau'n gysylltiedig ag adnoddau a chapasiti yr oedd angen eu hystyried, ac y byddai pwysau o ran costau yn ffactor wrth symud ymlaen mewn modd cynaliadwy.

Yn dilyn y drafodaeth, cynigiodd y Cynghorydd L.O. Rowlands yr argymhelliad canlynol i'r Cabinet:

- Bod angen strategaeth farchnata briodol ac ystyrlon er mwyn hyrwyddo'r Oriel Gelf Ganolog;
- Bod angen i'r maes gwasanaeth ymchwilio i gyfleoedd am gyllid allanol; ac
- Y dylid cynnal ymarfer ailfrandio ar gyfer yr Oriel Gelf Ganolog gyda golwg ar greu ymdeimlad cynhwysol yn y gofod.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, a phleidleisio yn ei erbyn.

Cynigiodd y Cynghorydd N.C. Thomas y dylai'r Pwyllgor gefnogi Opsiwn 3, fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac ar ôl i'r Cynghorydd Rowlands ofyn am gael cofnodi'n ffurfiol nad oedd o blaid yr argymhelliad, cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig, a phleidleisio o'i blaid. Cafodd, felly,

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo’r opsiwn a ffefrir fel yr amlinellir yn adroddiad y Cabinet ar 20 Rhagfyr 2021 sef Opsiwn 3.

Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

852 STRATEGAETH HYRWYDDO’R IAITH GYMRAEG (PW) –

Cyflwynodd y Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes a Mr. D. Thomas yr adroddiad a oedd yn gofyn am farn y Pwyllgor ar ddrafft Strategaeth Hybu'r Gymraeg 2022-2027 a'r cynllun gweithredu arfaethedig yn dilyn cyfnod o asesu ac ymgynghori.

Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Tachwedd 2021, cynhaliwyd ymgynghoriad ar ddrafft o Strategaeth Hybu'r Gymraeg bum mlynedd 2022-27 ac asesiad o'r strategaeth gyfredol
o fis Tachwedd 2021 hyd fis Ionawr 2022. Roedd hyn wedi'i atgyfeirio i'r Pwyllgor hwn ym mis Rhagfyr 2021 yn rhan o'r ymarfer ymgynghori.

Dyma'r atodiadau i'r adroddiad:

- Adroddiad yn manylu ar y gweithgarwch ymgynghori a gynhaliwyd a'r canlyniadau (Atodiad A).
- Asesiad wedi'i ddiweddaru o Strategaeth Hybu'r Gymraeg bum mlynedd (2017-22) gyfredol (Atodiad B).
- Strategaeth Hybu'r Gymraeg bum mlynedd wedi'i diweddaru, yn dilyn cyfnod o ymgynghori (Atodiad C).
- Cynllun Gweithredu atodol i fynd ar drywydd yr amcanion a'r ymrwymiadau yn y Strategaeth (Atodiad D).
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn gysylltiedig â'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu (Atodiad E).

Cafodd drafft y strategaeth a'r cynllun gweithredu eu trefnu'n unol â thair thema Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru:

i. Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg;
ii. Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg; a
iii. Chreu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun.

Roedd y strategaeth ddrafft hefyd yn cynnwys nifer o nodau o dan bob un o'r themâu y byddai'r Cyngor, mewn partneriaeth, yn mynd ar eu trywydd dros y cyfnod o bum mlynedd.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddog ac i Mr Thomas am yr adroddiad a chan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, cafodd ei

ARGYMHELLWYD – Cymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg y Cyngor (2022-2027) a'r cynllun gweithredu cysylltiedig sydd wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Rheswm dros yr argymhelliad

Sicrhau bod y strategaeth a'r cynllun gweithredu diwygiedig ar waith ar gyfer dechrau blwyddyn ariannol 2022/23 fel sy'n ofynnol gan Safonau'r Gymraeg.

853 CRYNODEB O'R GWAITH A WNAED I DDARPARU GRANTIAU URDDAS MISLIF LLYWODRAETH CYMRU YN SGIL COVID-19 (CDS) –

Cyflwynodd y Rheolwr Atal a Phartneriaeth yr adroddiad a roddai'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau ynghylch sut roedd Bro Morgannwg wedi bod yn cefnogi ysgolion a theuluoedd ar aelwydydd incwm isel i sicrhau urddas mislif i fenywod a merched drwy gydol pandemig COVID-19.

Roedd yr adroddiad yn adlewyrchu ystod eang o gamau gweithredu a gweithgareddau a gyflawnwyd gan swyddogion i sicrhau bod grantiau'n cael eu defnyddio'n llawn ac yn canolbwyntio ar sicrhau bod cynhyrchion mislif ar gael i fenywod a merched, yn rhad ac am ddim ac yn hygyrch yn y ffordd fwyaf ymarferol, a chyda chymaint o urddas ag a oedd yn bosibl.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am yr adroddiad gan nodi bod gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid yn arbennig yn ddiddorol, a bod sesiynau awyr agored mewn lleoliadau dros dro wedi bod yn syniad da.

Diolchodd yr aelodau i'r Swyddog a'i dîm am y gwaith helaeth a wnaed yn y maes hwn. Roedd hyn yn tynnu sylw at pa mor hanfodol oedd gwasanaethau o'r fath, ac roedd hi'n wych cael gweld bod y camau gorau posib wedi'u cymryd i sicrhau urddas mislif drwy gydol y pandemig. Nodwyd hefyd fod rhai mannau adwerthu yn cynnal cynlluniau lle'r oedd modd i siopwyr gael cynnyrch mislif drwy fynd at y cownter a gofyn am "becyn i Sandy".

Nododd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio ei bod wedi bod yn ymwneud â Phod Bwyd Penarth, a chadarnhaodd fod y silff hylendid wedi'i llenwi'n dda â stoc i'r rhai a oedd angen y nwyddau yn sgil y fenter hon.

Gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach ar yr adeg hon, cafodd

ARGYMHELLWYD – Nodi cynnwys yr adroddiad a diolchiadau'r Pwyllgor i'r Swyddogion sydd wedi rhoi cymorth yn y maes hwn.

Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.